**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

8 Mai 2019

Annwyl Ken,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mai fel rhan o'n hymchwiliad i gymhwystra a gweithredu cynllun y bathodyn glas yng Nghymru. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch gytuno i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- rhagor o wybodaeth ynghylch nifer yr achosion o gamddefnyddio cynllun y bathodyn glas yng Nghymru, gan gynnwys manylion data'r Awdurdod Atal Twyll Cenedlaethol a oedd yn dangos bod 20 y cant o fathodynnau glas yn cael eu camddefnyddio ar draws y DU;
- manylion ynghylch ymgysylltiad awdurdodau lleol â gweithdai hyfforddi a phecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiadau bathodyn glas, a
- manylion faint o achosion o gamddefnyddio y gellir eu hatal drwy ddileu bathodynnau annilys.

Yn ystod y cyfarfod, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch proses apelio ar gyfer ceisiadau bathodyn glas a wrthodwyd, gwnaethoch ddweud wrthym fod proses apelio annibynnol ar waith o fewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn wahanol i'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid amrywiol. Dywedodd Anabledd Cymru wrthym:

"in the guidance, it actually states that there is no appeal process. So, once a decision's made it is final. But there is room to ask the local authority to reconsider their decision."

Adleisiwyd y farn hon gan Age Cymru:

"technically, there is no appeals process against a blue badge. There are various types of recourse, but even so, we have had people come to us who have been told they can appeal, and have also been told that there's no point in them appealing because the grounds won't have changed."

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru at y Pwyllgor yn cyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru 'Pwy sy'n gymwys am Fathodyn Glas?' sy'n datgan yn benodol:

"Mae penderfyniad yr awdurdod lleol ar gymhwysedd yn derfynol. Nid oes proses apelio."

Gwnaethoch ddweud hefyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth y gall unigolion apelio i Lywodraeth Cymru hefyd, o dan amgylchiadau penodol, er ei bod yn ymddangos bod hyn yn gwrth-ddweud llyfryn Llywodraeth Cymru sy'n nodi:

"Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i ymyrryd yn y broses benderfynu."

Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi sicrwydd o ran y materion penodol a ganlyn:

- a yw'r ddau draean o awdurdodau lleol yr ydych yn dweud eu bod yn defnyddio proses apelio annibynnol wedi defnyddio'r llwybr hwn i bennu canlyniad cais am fathodyn glas neu setlo apeliadau yn erbyn penderfyniadau bathodyn glas, ac
- a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl o ran datrys apeliadau a wnaed gan unigolion y gwrthodwyd eu cais am fathodyn glas, ac os felly, o dan ba amgylchiadau fyddai hyn yn digwydd?

Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor pe gallech ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y cyfeiriwyd ati yn ystod y cyfarfod ac eglurhad o ran apeliadau erbyn 24 Mai er mwyn caniatáu i'r Aelodau ei ystyried fel rhan o'n gwaith parhaus ar yr ymchwiliad hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

John

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English